# Modelau Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth mewn Lleoliadau Gofal Cymdeithasol

Adolygiad Cyflym

Gorffennaf 2024

Francesca Mazzaschi, Abubakar Sha'aban, Elizabeth Gillen, Ruth Lewis, Adrian Edwards, Natalie Joseph-Williams, Micaela Gal, Elizabeth Doe, Alison Cooper

## Nod

Gwella Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru i gyd-fynd ag arferion byd-eang.

## Sylfaen y dystiolaeth

**5** Nodwyd 5 astudiaeth berthnasol

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael **hyd at fis Mai 2024.**

Mathau o ofal a adolygwyd:

- lles plant ac amddiffyn plant
- gofal dementia
- camddefnyddio sylweddau / trin dibyniaeth
- gofal i blant a theuluoedd
- gofal anabledd meddyliol a chorfforol
- gofal i oedolion hŷn
- cymorth cymdeithasol / cymorth incwm
- atal trais

**Beth yw hwyluso defnyddio gwybodaeth?**
Rhoi'r **wybodaeth** gywir i'r **bobl** gywir yn y **fformat** cywir ar yr **amser** cywir, er mwyn helpu i lywio **ymarfer a'r broses benderfynu.**

**Adolygu prosesau hwyluso defnyddio gwybodaeth**

- Digidol ac amlgyfrwng (e.e. fideos)
- Seminarau a digwyddiadau ffurfiol
- Offer ac adnoddau addysgol (e.e. pecynnau cymorth hyfforddi a phamffledi)
- Strategaethau 'trosglwyddo gwybodaeth'
- Pyrth ar-lein (gwefannau)
- Cymorth uniongyrchol gan arbenigwr (un person i berson arall)
- Crynodebau ymchwil

Gwledydd sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad:



Y DU | UDA | Awstralia | Canada | Yr Iseldiroedd | Sweden | Tsieina

## Prif ganfyddiadau

**Mae'r astudiaeth hon yn cefnogi:**

Budd:

Defnydd cyfunol o wefannau a phlatfformau digidol eraill i ledaenu arfer gorau ar draws sectorau.

Yn helpu i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch a thryloyw.

Hyrwyddo cydweithio rhyngddisgyblaethol ymhlith timau gan gynnwys:

- ymchwilwyr
- ymarferwyr
- defnyddwyr gwasanaethau
- llunwyr polisïau

- Yn meithrin arloesedd
- Yn gwella perthnasedd ymchwil
- Yn cefnogi'r defnydd o ymchwil yn ymarferol

Y defnydd o amrywiaeth o strategaethau ar unwaith, megis

- adnoddau digidol,
- seminarau cyfnewid gwybodaeth, a
- dulliau cynhwysfawr o drosglwyddo gwybodaeth

Yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu teilwra i anghenion penodol gwahanol leoliadau.

Datblygiad proffesiynol parhaus a gwaith i feithrin gallu ymhlith ymarferwyr.

Yn gwella eu sgiliau o ran cael gafael ar dystiolaeth ymchwil, ei dehongli a'i defnyddio yn ymarferol.

Gweithredu fframweithiau gwerthuso cadarn i asesu effaith ymyriadau dros amser.

Yn cefnogi gwelliannau parhaus i strategaethau i wella'r buddion mewn lleoliad go iawn.

Mae'r adolygiad cyflym llawn ar gael i'w **ddarllen yma.**